



Gan gydweithio ledled Bae Abertawe, dros y ddwy flynedd nesaf rydym yn ymrwmo i wneud y canlynol...

<b>Cyfathrebu ac arweinyddiaeth</b>
<b>Sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr teithio cynaliadwy</b> Sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr teithio cynaliadwy, gan gynnwys uwch staff a rheolwyr a, lle bo'n berthnasol, myfyrwyr ac aelodau etholedig, sy'n hyrwyddo ac yn modelu ymddygiad teithio llesol a chynaliadwy fel mater o drefn, yn unol â'r hierarchaeth teithio cynaliadwy
<b>Cynnwys ein staff</b> Cynnwys staff yn rheolaidd wrth drafod pa fesurau a fyddai'n eu helpu i symud i ddulliau cynaliadwy o deithio, drwy arolygon teithio (o leiaf arolwg llinell sylfaen cychwynnol ac arolwg blynyddol) a mentrau eraill, e.e. cystadlaethau a gwobrwyon staff i annog teithio iach
<b>Defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson</b> Defnyddio a chytuno ar negeseuon cyfathrebu cyson gyda'r cyhoedd, ymwelwyr a staff ar deithio'n iach a lleihau teithio diangen
<b>Ystyried teithio iach ar draws ein swyddogaethau ehangach</b> Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, cynllunio'r gweithlu a llety swyddfeydd, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau
<b>Annog teithio cynaliadwy drwy bolisiâu treulïau</b> Adolygu ein polisiâu costau teithio gyda'n gilydd, er mwyn annog rhagor o bobl i deithio'n gynaliadwy
<b>Darparu arweinyddiaeth strategol ar deithio iach</b> Cydwethio â phartneriaid a darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol ar deithio iach a chynaliadwy, er enghraifft drwy gwmpasu dichonoldeb gwasanaethau partneriaeth Parcio a Theithio
<b>Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus</b>
<b>Hyrwyddo gostyngiadau trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio cynaliadwy</b> Archwilio gostyngiadau i staff ar wasanaethau rheilffordd Trafnidiaeth Cymru a chyda darparwyr trafndiaeth leol
<b>Cyfrannu at fap rhyngweithiol o gyfleusterau teithio cynaliadwy</b> Cyfrannu at fap rhyngweithiol sy'n dangos, lle bo'n berthnasol, yr holl seilwaith cerdded a beicio a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus yn ein prif safleoedd ym Mae Abertawe
<b>Darparu cyfleusterau ac ategolion i staff er mwyn annog teithio llesol</b> Aseu a darparu, fel sy'n briodol, storffeydd diogel i feiciau, loceri, cawodydd a manau sychu dillad ym mhob prif safle. Sicrhau bod ategolion ar gael i staff a/neu ymwelwyr i annog cerdded a beicio. Mae enghreifftiau yn cynnwys ymbarelau, mapiau cerdded/beicio lleol, cloeon, pecynnau trwsio tyllau ac offer cynnal a chadw
<b>Mabwysiadu dull 'dillad actif ar gyfer teithio llesol'</b> Hyrwyddo dull 'dillad actif ar gyfer teithio llesol' i ddillad ac esgidiau gwaith. Er enghraifft, caniatáu staff i wisgo esgidiau ymarfer corff os yw eu taith gymudo yn cynnwys cerdded neu feicio
<b>Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith</b> Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff (gan gynnwys e-feiciau)
<b>Galluogi staff i gael mynediad at feiciau yn haws yn y gwaith</b> Gwella mynediad at feiciau yn y gwaith lle bo'n briodol, e.e. beiciau cronfa a beiciau llogi cyhoeddus
<b>Hyrwyddo sesiynau hyfforddiant a chynnal a chadw beicio</b> Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynnig sesiynau hyfforddiant a chynnal a chadw beicio
<b>Gweithio ystywyth</b>
<b>Cefnogi gweithio hyblyg</b> Darparu opsiynau gweithio hyblyg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gan gynnwys gweithio gartref a/neu mewn hwb lleol, a datblygu diwylliant o weithio ystywyth
<b>Archwilio opsiynau ar gyfer desgiau poeth rhwng sefydliadau</b> Archwilio cyfleoedd i alluogi staff i ddefnyddio desgiau poeth rhwng sefydliadau partner a chyfleusterau ledled Bae Abertawe, lle bo hynny'n briodol
<b>Cerbydau ag allyriadau isel iawn</b>
<b>Adolygu darpariaeth cyfleusterau gwefru cerbydau trydan</b> Adolygu'r angen cyfredol a'r angen yn y dyfodol ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) ar ein safleoedd, ac archwilio'r potensial ar gyfer gwneud seilwaith gwefru ar gael i bartneriaid eraill yn yr ardal
<b>Edrych ar opsiynau ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn yn ein fflydoedd ac mewn trefniadau caffael</b> Adolygu ein fflyd a'n trefniadau caffael (lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys e-feiciau a beiciau e-gargo, lle bo hynny'n berthnasol

